




**newid bywydau
lleihau troseddu
changing lives
reducing crime**

Cynnlun Iaith Gymraeg Welsh Language Scheme



Cynnwys

- Cyflwyniad *tudalen 2*
- Cefndir *tudalen 3*
 - *Deddf yr Iaith Gymraeg 1993*
 - Bwrdd yr Iaith Gymraeg
 - Pam fod angen cynllun ei hun ar Nacro Cymru
 - Gofynion cynllun iaith Gymraeg
 - Cynlluniau iaith a chyfle cyfartal
 - Cynllunio Ariannol
 - Nacro a Nacro Cymru
- Effaith Cynllun Iaith Gymraeg Nacro ar Nacro Cymru *tudalen 7*
 - Cynllunio a Darparu Gwasanaeth
 - Delio a'r cyhoedd a defnyddwyr gwasanaeth sy'n siarad Cymraeg
 - Wyneb Cyhoeddus Nacro Cymru
- Gweithredu a Monitro'r Cynllun *tudalen 12*
 - Staff a Gwirfoddolwyr
 - Recriwtio
 - Dysgu Cymraeg
 - Hyfforddiant arall
 - Trefniadau gweinyddol
 - Monitro
 - Cyhoeddi gwybodaeth ar berfformiad
 - Rhoi Cyhoeddusrwydd i'r Cynllun

Cyflwyniad

Yn Nacro, yr elusen dros leihau troseddau, rydym yn gwneud cymdeithas yn fwy diogel drwy ddod o hyd i atebion ymarferol i leihau troseddau. Ers 1966 rydym wedi gweithio i roi'r cymorth sydd ei angen ar gyn-droseddwyr, pobl ddifreintiedig ac ardaloedd o amddifadedd er mwyn iddynt adeiladu gwell dyfodol. Mae Nacro'n anelu at atal troseddu drwy drefnu gwasanaethau a phrosiectau sy'n mynd i'r afael â'r ffactorau cymdeithasol ac economaidd sy'n gysylltiedig â throseddu.

I gydnabod ein hymrwymiad i weithio yng Nghymru, sefydlwyd Nacro Cymru gan Nacro ym 1998. Mae Nacro Cymru yn darparu rhwydwaith o brosiectau tai, cyflogaeth, hyfforddiant a gwaith ieuentid ac mae'n cydlynu gwasanaethau presennol yn ogystal â hyrwyddo mentrau newydd yng Nghymru, yn cynnwys datblygu'r Cynllun Iaith Gymraeg. Mae Nacro yn ymroddedig i hybu cyfle cyfartal, cael gwared ar wahaniaethu ac annog y cyfoeth sy'n dod i'r sefydliad drwy natur amrywiol ein staff a'n defnyddwyr gwasanaeth. Mae'r Cynllun Iaith Gymraeg wedi'i wreiddio yn yr athroniaeth hon ac mae'n anelu at hybu cydraddoldeb ac amrywiaeth drwy annog pawb i gymryd rhan yn yr iaith Gymraeg ac yn niwylliant Cymru a gwella'r ddealltwriaeth o'r amrywiaeth diwylliannol ac ieithyddol sy'n bodoli yng Nghymru.

Pwrpas y Cynllun Iaith Gymraeg, sydd wedi cael ei gymeradwyo gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg, yw galluogi pobl i ddefnyddio eu dewis iaith a chaniatáu i aelodau o'r cyhoedd yng Nghymru dderbyn gwasanaethau Nacro Cymru yn Gymraeg os dymunant. Y nod yw adeiladu gwasanaeth ymatebol a chyson i siaradwyr Cymraeg sydd o'r un ansawdd da yn Gymraeg ac yn Saesneg. Bydd hyn yn golygu fod gan ddefnyddwyr gwasanaeth fynediad i'r holl wasanaethau yn Gymraeg, bod dros y ffôn, mewn gohebiaeth ysgrifenedig, neu wrth fynychu cyfarfodydd neu gynadleddau. Bydd deunyddiau gwasanaeth hefyd yn cael eu paratoi yn Gymraeg, yn ogystal â datganiadau i'r wasg a hysbysebion lle mae hynny'n briodol. Mae bod â'i gynllun iaith ei hun yn rhoi meincnod i Nacro Cymru fydd yn llywio ei weithgareddau yn y ddwy iaith gyda phob un o'i bartneriaid. Bydd rheolwr pob swyddfa prosiect yn gyfrifol am gynnig y ffordd orau i drefnu ei weithgareddau a'i weithwyr i'w alluogi i ddarparu ar gyfer y cyhoedd sy'n siarad Cymraeg yn unol â'r cynllun hwn.

Mae'r ddogfen hon yn nodi manylion y Cynllun Iaith Gymraeg diwygiedig Nacro ac mae'n seiliedig ar yr egwyddorion canlynol:

- Mae Nacro Cymru wedi derbyn yr egwyddor y bydd yn trin yr iaith Gymraeg a'r iaith Saesneg ar y sail eu bod yn gyfartal wrth weinyddu ei fusnes cyhoeddus yng Nghymru. Mae'r polisi hwn yn datgan y modd y bydd Nacro Cymru yn gweithredu'r egwyddor wrth ddarparu gwasanaethau yng Nghymru.
- Bydd Nacro Cymru yn nodi cyfarwyddyd Bwrdd yr Iaith Gymraeg wrth benderfynu ar fesurau fydd yn addas ac yn ymarferol.
- Mae Nacro Cymru yn cydnabod fod iaith yn hanfod o hunaniaeth unigolyn a bod pobl yn mynegi eu barn a'u hanghenion orau yn eu dewis iaith. Mae gwrthod y cyfle i bobl ddefnyddio eu dewis iaith yn torri ar eu hawliau, a gallai hynny eu rhoi dan anfantais wirioneddol. Mae galluogi pobl i ddefnyddio eu dewis iaith yn fater o arfer da, ac o'r herwydd y mae Nacro Cymru yn anelu i sicrhau y gall aelodau'r cyhoedd yng Nghymru dderbyn ei wasanaeth yn Gymraeg os mai dyna yw eu dymuniad.

Cefndir

■ *Deddf yr Iaith Gymraeg 1993*

Darparwyd *Deddf yr Iaith Gymraeg 1993* i gydnabod, ac fel ymateb i, dwf yn y defnydd o'r iaith Gymraeg mewn busnes cyhoeddus, addysg a gweithgareddau diwylliannol a chymdeithasol. Mae'r Ddeddf yn sefydlu egwyddor ddiamwys, sef 'wrth gynnal busnes cyhoeddus ac wrth weinyddu cyfiawnder yng Nghymru y dylid trin Gymraeg a Saesneg ar y sail eu bod yn gyfartal.' Mae'r Ddeddf yn mynnu bod cyrff cyhoeddus sy'n darparu gwasanaeth ar gyfer y cyhoedd yng Nghymru yn darparu cynllun iaith. Nod y cynllun iaith yw nodi'r camau y bydd y corff yn eu cymryd er mwyn gweithredu'r egwyddor sylfaenol o gydraddoldeb y Gymraeg a'r Saesneg. Mae'r Ddeddf yn enwi'r mathau o gyrff cyhoeddus y bydd disgwyl iddynt baratoi cynllun iaith ar y cychwyn. Nid yw cyrff gwirfoddol yn gyrff cyhoeddus ar hyn o bryd. Mae gan yr Ysgrifennydd Gwladol y grym i ddynodi cyrff eraill trwy offeryn statudol, nid oes rhwystr rhag cynnwys cyrff gwirfoddol yn ddiweddarach.

Mae'r gofyniad statudol a roddir ar gyrff cyhoeddus i ddarparu cynllun i'w weld yn adran 5 y Ddeddf:

- (1) Bydd pob corff cyhoeddus y cyflwynir hysbysiad iddo o dan adran 7 ac sydd
 - (a) yn darparu gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru; neu
 - (b) yn ymarfer swyddogaethau statudol mewn perthynas â darparu gwasanaethau gan gyrff cyhoeddus eraill i'r cyhoedd yng Nghymru;

yn paratoi cynllun i bennu'r mesurau y bwriada eu cymryd, at y diben y cyfeirir ato yn isadran (2) isod, yn gl n â defnyddio'r iaith Gymraeg mewn cysylltiad â darparu'r gwasanaethau hynny, neu'r cyfryw wasanaethau o'u plith ag a bennir yn yr hysbysiad.
- (2) Y diben y cyfeirir ato yn isadran (1) uchod yw gweithredu, cyn belled ag y bo'n briodol o dan yr amgylchiadau ac yn rhesymol ymarferol, yr egwyddor, wrth gynnal busnes cyhoeddus a gweinyddu cyfiawnder yng Nghymru, y dylid trin Gymraeg a Saesneg ar y sail eu bod yn gyfartal.

- (3) Wrth baratoi cynllun o dan y Rhan hon o'r Ddeddf hon bydd corff cyhoeddus yn rhoi sylw i unrhyw ganllawiau a gyhoeddir gan y Bwrdd.

Yn adran 5 (2) y Ddeddf fel y'i gwelir uchod, mae'n bwysig nodi fod yr egwyddor o gydraddoldeb yn ddiamod: dylai cyrff ymdrechu i gyflawni'r egwyddor yn llawn. Mae'r cymal 'cyn belled ag y bo'n briodol o dan yr amgylchiadau ac yn rhesymol ymarferol' yn cyfeirio at y mesurau unigol a gynigir yn y cynllun yn hytrach nag i'r egwyddor ei hun. Wrth ystyried cynlluniau a gyflwynir gan gyrff cyhoeddus er mwyn derbyn cymeradwyaeth, bydd Bwrdd yr Iaith Gymraeg yn ystyried a ydyw'r mesurau a gynigir yn y cynllun yn cyflawni egwyddor cydraddoldeb, ac 'ni fydd yn dderbyniol i'r rhai sy'n paratoi cynlluniau gymryd golwg cwbl oddrychol neu gul o'r hyn sy'n briodol dan eu hamgylchiadau neu'n rhesymol ymarferol.' Yr 'amgylchiadau' perthnasol yw'r rhai sy'n ymwneud ag (a) natur y gwasanaeth a ddarperir, a (b) natur y cyhoedd sy'n derbyn y gwasanaeth ganddynt (er enghraifft, proffil ieithyddol ardal) ond rhaid canfod hyn mewn dull gwrthrychol. Cydnabyddir fod beth sy'n 'rhesymol ymarferol' yn gyfuniad o nifer o ffactorau yn cynnwys os yw mesur yn ffisegol bosibl. Fe ddylai cynlluniau, fodd bynnag, gynnwys mesurau nad ydynt efallai yn rhesymol ymarferol pan fo'r cynllun yn cael ei baratoi, ond a allai fod felly yn y dyfodol. Mewn achosion felly mae angen nodi amserlen ar gyfer cyflawni'r mesurau hynny. Mae'r cyfrifoldeb ar y sefydliad sy'n paratoi'r cynllun i arddangos i'r bwrdd a'i fodloni iddo weithredu ar egwyddor cydraddoldeb, cyn belled ag y bo'n rhesymol ymarferol.

■ *Bwrdd yr Iaith Gymraeg*

Sefydlwyd Bwrdd yr Iaith gan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993. Ei amcanion yw hybu a hwyluso'r defnydd o'r iaith Gymraeg ac i arolygu paratoi a gweithredu cynlluniau iaith statudol. Mae ganddo rym dan Adran 7 *Deddf yr Iaith Gymraeg 1993* i roi rhybudd i gorff cyhoeddus fel y'i diffinnir yn adran 6 y Ddeddf, i baratoi cynllun yn unol â'r diffiniad a geir yn Adran 6 y Ddeddf. Nid oes dyletswydd statudol ar adrannau'r llywodraeth na chyrff y Goron i

baratoi cynlluniau, ond cafwyd ymrwymiad gan y llywodraeth i wneud hynny, yn cynnwys adrannau y tu allan i Gymru (megis y Swyddfa Gartref) y mae eu dyletswyddau yn berthnasol i ddarparu gwasanaeth i'r cyhoedd yng Nghymru.

Mae Bwrdd yr Iaith Gymraeg yn annog sefydliadau i geisio mabwysiadu'r arfer gorau posib pob amser yn eu defnydd o'r iaith Gymraeg, ac wedi rhybuddio unrhyw sefydliad sy'n gadael ei hun yn agored i feirniadaeth oherwydd mai'r lefel isaf o wasanaeth a ddarperir ganddynt yn Gymraeg ar gyfer siaradwyr Cymraeg. Ni ddylid talu sylw i lefel gyfredol galw'r cyhoedd am wasanaeth trwy gyfrwng yr iaith Gymraeg, gan y bydd galw cynyddol wrth i'r cyhoedd fagu hyder y gall dderbyn gwasanaeth yr un mor effeithiol yn yr iaith Gymraeg ac yn Saesneg. Dylai sefydliadau baratoi i ymateb yn briodol.

Mae'r Bwrdd yn croesawu cynlluniau gan gyrff gwirfoddol a bydd yn eu cymeradwyo. Mae'n bosibl dyfeisio cynllun sy'n datblygu'r defnydd o'r iaith Gymraeg mewn modd gweithredol heb geisio cymeradwyaeth ffurfiol y Bwrdd, ond nid oes fawr o fanteision i hynny gan y byddai cynllun heb ei gymeradwyo yn gorfod mabwysiadu'r un egwyddorion a'r un dulliau â chynllun a gafodd gymeradwyaeth y Bwrdd.

■ Pam fod angen cynllun ei hun ar Nacro Cymru

Nid yw Nacro Cymru yn 'gorff cyhoeddus' yn ôl diffiniad y Ddeddf, ac o'r herwydd ni ellir gorfodi'r corff ar hyn o bryd i baratoi cynllun iaith Gymraeg. Nid yw'r rhestr o gyrff y mae gofyn iddynt sefydlu cynllun yn sefydlog, fodd bynnag, ac yn gyffredinol y mae disgwyl y bydd y rhestr yn cael ei ymestyn yn raddol i gynnwys gyrff o fathau eraill, ac y mae'n debygol y bydd Nacro Cymru yn cael ei gynnwys o fewn y term 'corff cyhoeddus' pan gaiff ei ailddiffinio yn y dyfodol.

Mae rheswm pwysicach, fodd bynnag, dros ddarparu cynllun yn awr yn hytrach nag aros iddo gael ei wneud yn ofyniad statudol fel yr esbonnir isod. Mae'n rhaid i gyrff cyhoeddus gael cynllun cymeradwy a sicrhau fod unrhyw gytundebau neu drefniadau a wneir rhyngddynt

ag eraill mewn perthynas â'r gwasanaethau a ddarperir ganddynt ar gyfer y cyhoedd yng Nghymru, yn gydnaws â'u cynlluniau. Mae hyn yn cynnwys (heb gyfyngiad) gwasanaethau gaiff eu cytundebu i gyrff eraill. Nid yw'r ffaith mai corff gwirfoddol sy'n darparu'r gwasanaeth yn eithrio'r cyrff cyhoeddus rhag ufuddhau i'r Ddeddf ac i'w cynlluniau iaith eu hunain. Ni all Nacro Cymru felly beidio ag ufuddhau i orchmynion cynllun iaith unrhyw gorff cyhoeddus arall y mae ganddo gytundeb lefel gwasanaeth ag ef neu ddealltwriaeth arall sy'n rheoli darparu gwasanaethau i'r cyhoedd. I grynhoi, y mae holl wasanaethau Nacro Cymru a ddarperir o ganlyniad i gytundebau neu drefniadau gydag awdurdodau lleol yn dod o fewn cwmpas y Ddeddf.

Canlyniadau peidio â chael ein cynllun ein hun fyddai y byddai rhaid i Nacro gydymffurfio â chynlluniau iaith unigol pob corff cyhoeddus y mae'n darparu gwasanaeth i'r cyhoedd ar ei ran. Ni fydd cynllun Nacro Cymru yn symud ymaith yr angen i gwrdd â'r gofynion y mae gyrff allanol yn eu disgwyl gennym, ond mae'n rhoi meincnod a chynllun gweithredu y gallwn ei ddefnyddio i benderfynu os ydym am barhau i ddarparu gwasanaeth ar ran rhai cyrff cyhoeddus ai peidio.

■ Gofynion cynllun iaith Gymraeg

Mae cysyniad cynllun iaith yn ymestyn llawer pellach na chael polisi yn unig: mae'n golygu strategaeth gynhwysfawr yn seiliedig ar bolisi a chynllun gweithredu yn cynnwys y mesurau ar gyfer darparu gwasanaethau i'r cyhoedd yn Gymraeg er mwyn gweithredu egwyddor cydraddoldeb.

■ Cynlluniau iaith a chyfle cyfartal

Mae'n rhaid sefydlu cynllun iaith llwyddiannus ar bolisi cadarn a gweithredol o blaid cyfle cyfartal ac amrywiaeth. Rhydd *Deddf yr Iaith Gymraeg 1993* gyfle i Nacro Cymru arolygu ei bolisi cyfle cyfartal ac amrywiaeth. Rhaid gwreiddio'r cynllun iaith Gymraeg o fewn athroniaeth Nacro, rhaid iddo ddylanwadu ar ei agwedd a chyfarwyddo ei weithredoedd tuag at

weithio yn y ddwy iaith. Gall gweithredu cynllun iaith fod o fudd i gyfle cyfartal ac amrywiaeth mewn pum ffordd:

- Mae'n annog sefydliadau i archwilio ac arolygu eu gweithgareddau, gan ofyn 'Ydyn ni'n gwasanaethu ein cymunedau ac oes modd inni wella ein perthynas gyda'n defnyddwyr a'n cefnogwyr presennol a dichonol?'
- Mae'n hybu'r arfer o gynllunio hir dymor ar gyfer anghenion ieithyddol a diwylliannol pobl sy'n siarad ieithoedd ar wahân i Gymraeg a Saesneg.
- Mae'n rhoi'r cyfle i bawb gyfranogi o ddiwylliant Cymru a'r iaith Gymraeg a'u gwerthfawrogi os dymunant.
- Wrth i staff, gwirfoddolwyr ac aelodau gyfrannu tuag at ei greu, mae'n gwella dealltwriaeth o'r amrywiaeth ieithyddol a diwylliannol sy'n bodoli yng Nghymru ac yn agor llygaid a meddyliau i amrywiaethau eraill.
- Mae'n cryfhau polisiau cyfle cyfartal ac amrywiaeth mewn agweddau eraill o weithgaredd y sefydliad.

Rhaid ystyried darpariaethau *Deddf Cysylltiadau Hiliol 1976* hefyd. Dan amodau *Deddf Cysylltiadau Hiliol 1976*, un gr p hil yw'r Cymry (nid oes gr p hil o siaradwyr Cymraeg ac un arall o siaradwyr Saesneg o fewn gr p hil y Cymry). O ganlyniad, nid yw gwahaniaethu rhwng Cymry ar sail eu gallu neu eu hanallu i siarad Cymraeg yn wahaniaethu anghyfreithlon ar sail hil. Gallai cynnwys y gallu i siarad Cymraeg fel amod hanfodol ar gyfer penodiad i swydd, fodd bynnag, fod yn wahaniaethu anuniongyrchol ar sail hil. Y rheswm dros hyn yw y byddai Cymry yn fwy tebygol o fodloni'r amod na phobl eraill. Mae'n rhaid dangos felly fod gosod yr amod fod y gallu i siarad Cymraeg yn hanfodol (yn unol ag isadran 5.2(d) o'r *Ddeddf*) yn gallu cael ei gyfiawnhau yn wrthrychol trwy fesur anghenion rhesymol y gwasanaeth a'r cyflogwr yn erbyn unrhyw effaith wahaniaethol. Ni fyddai cynnwys y gallu i siarad Cymraeg fel amod dymunol ymhlith amodau dymunol eraill i'w hystyried ar gyfer asesu addasrwydd ar gyfer swydd yn cyfrif fel 'Amod gofyniad' ac ni fyddai yn cyfrif, ar ei ben ei hun, fel gwahaniaethu anuniongyrchol dan y *Ddeddf Cysylltiadau Hiliol*.

■ Cynllunio Ariannol

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi penderfynu yn erbyn cyllid incwm penodol ar gyfer gweithredu'r Ddeddf. Yn hytrach y mae angen i unrhyw gostau ychwanegol gael eu cynnwys o fewn cyllidebau prif ffrwd. Cynghorwyd cyrff cyhoeddus i ystyried y mesurau a gynhwysid yn eu cynlluniau wrth edrych ar anghenion cyllidebau yn y dyfodol.

Bydd angen nodi mewn cytundebau lefel gwasanaeth yn y dyfodol sut y bydd costau darparu gwasanaethau yn ddwyieithog yn cael eu talu.

■ Nacro a Nacro Cymru

Bu Nacro mewn bodolaeth ar ei ffurf bresennol ers 1966 pan olynodd y National Association of Discharged Prisoners' Aid Societies. Ei amcanion yw gofalu am gyn-garcharorion, eu teuluoedd a'u dibynyddion (yn cynnwys cynorthwyo mewn tlodi, salwch a hybu addysg a hyfforddiant) a hybu atal troseddau. Mae Nacro yn ceisio atal troseddau trwy gyfrwng gwasanaethau a phrosiectau sy'n mynd i'r afael â'r ffactorau cymdeithasol ac economaidd sy'n gysylltiedig â throeddau yn ogystal â chynnig dewisiadau adeiladol i'r rhai sydd mewn perygl o droseddu. Nod gwasanaethau Nacro yw cynnig cyfle i'r rhai sydd wedi bod mewn trafferth gyda'r gyfraith, a'r rhai sydd mewn perygl o fod, i droi eu cefnau ar droseddu a byw o fewn y gyfraith yn y gymuned.

Mae'r rhychwant gwasanaethau a gynigir gan Nacro Cymru ledled y Cymru yn adlewyrchu nodau ac amcanion y sefydliad yn llawn. I grynhoi, mae Nacro Cymru yn darparu rhwydwaith o gartrefi, cyflogaeth, hyfforddiant a phrosiectau gwaith ieuenctid, llawer ohono'n cael ei ariannu gan grantiau Llywodraeth Cynulliad Cymru. Mae amodau grantiau Llywodraeth Cynulliad Cymru'n cynnwys gofyniad i ystyried anghenion defnyddwyr gwasanaeth nad yw Saesneg yn iaith gyntaf iddynt.

I gydnabod ei ymrwymiad i weithio yng Nghymru, sefydlwyd Nacro Cymru gan Nacro ym 1998 (heb fod yn gyfreithiol annibynnol oddi wrth Nacro) i gydlynu gwasanaethau

Cefndir

cyfredol ac i hybu datblygiadau yn y dyfodol. Ymhlith y rhain mae datblygu'r Cynllun Iaith Gymraeg sy'n rhan annatod o strategaeth cydraddoldeb ac amrywiaeth Nacro. Mae Nacro Cymru wedi datblygu strategaeth a chynllun gweithredu yn cynnwys mesurau i ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd yn Gymraeg a Saesneg er mwyn rhoi'r egwyddor o gydraddoldeb mewn grym.

Mae prosiectau ei brosiectau darparu gwasanaethau uniongyrchol Nacro Cymru yn cynnwys:

- Tai: amrywiaeth o wasanaethau cefnogi sy'n ymwneud â thai yn Sir Fôn, Gwynedd, Conwy, Sir Ddinbych a Wrecsam, yn cynnwys tenantiaethau â chymorth, lloches nos, cymorth fel bo'r angen, cyngor ar adsefydlu ac atal digartrefedd;
- Gwaith dysgu, sgiliau a chyflogaeth: mae hyfforddiant sgiliau sylfaenol i oedolion a phobl ifanc ar gael mewn lleoliadau ar hyd a lled Cymru, yn cynnwys Llangefni, Bangor, Bae Colwyn, y Rhyl, Shotton, Wrecsam a Chasnewydd. Mae'r prosiectau hyn yn cynnig cymorth a chyngor yn ogystal â darparu hyfforddiant achrededig mewn rhifedd a llythrennedd a chymorth i gael gwaith. Mae prosiect becws yn Ninbych yn darparu sgiliau galwedigaethol mewn pobi, manwerthu ac ati, yn ogystal â helpu gyda datblygu sgiliau eraill. Mae canolfan Nacro yng Nghasnewydd yn darparu Adeiladu Sgiliau i ddysgwyr ifanc.
- Dewisiadau Ieuenctid: mae'r prosiectau hyn yn darparu cymorth a chyngor i bobl ifanc drwy gyfrwng gwasanaeth galw i mewn neu waith allanol. Mae Dewisiadau Ieuenctid yn anelu at ddenu hyd yn oed y bobl ifanc sydd wedi eu dadrithio fwyaf (y rhai nad ydynt mewn addysg, hyfforddiant na gwaith) yn ôl i ddarpariaeth prif ffrwd. Mae'r prosiectau wedi eu lleoli ym Mangor, Llangefni a Bae Colwyn.
- Mae gwaith yn digwydd gyda defnyddwyr cyffuriau drwy gyfrwng Prosiect Ymyriadau Cyffuriau, gyda gweithwyr ym Mangor, Llangefni, Bae Colwyn, y Rhyl, Shotton a

Wrecsam. Mae gwaith arbenigol gyda chleientiaid prawf yn digwydd drwy'r prosiect GWAWR ym Mae Colwyn.

Mae Uned Troseddau Ieuenctid Nacro Cymru yn darparu ymchwil, ymgynghoriaeth a gwasanaethau hyfforddi i asiantaethau sy'n gweithio i fynd i'r afael â throseddau ieuenctid yng Nghymru.

Effaith Cynllun Iaith Gymraeg Nacro ar Nacro Cymru

■ Cynllunio a Darparu Gwasanaeth

Gweithdrefnau a mentrau Nacro

Wrth ffurfio polisïau mewnol newydd a chynllunio unrhyw fentrau newydd sy'n effeithio ar ddarpariaeth gwasanaethau ar gyfer y cyhoedd yng Nghymru, bydd Nacro Cymru yn asesu eu canlyniadau ieithyddol mewn perthynas â'r defnydd o'r iaith Gymraeg a'r iaith Saesneg a bydd yn sicrhau fod y polisïau a'r mentrau newydd yn cydymffurfio â'r ymrwymïadau a nodwyd yn y cynllun hwn.

Gall cyflwyno polisïau a mentrau newydd alluogi Nacro Cymru i hybu'r defnydd o'r iaith Gymraeg yn ei wasanaethau ac i symud tuag at gyflawni amcanion y cynllun hwn. Bydd Nacro Cymru yn ceisio gwneud yn fawr o gyfleon o'r fath er mwyn symud yn nes at weithredu'r egwyddor o gydraddoldeb yr iaith Gymraeg a'r iaith Saesneg.

Caiff y mesurau a ddisgrifir yn y cynllun hwn eu gweithredu yn y polisïau a'r mentrau newydd. Tynnir sylw aelodau staff, gwirfoddolwyr ac eraill fydd yn rhan o ffurfio a gweithredu'r rhain at y cynllun ac at ofynion *Deddf yr Iaith Gymraeg 1993*.

Darparu Gwasanaethau

Mae Nacro Cymru yn darparu ystod eang o wasanaethau i bobl ifanc a chyn-droseddwy'r a'u teuluoedd a chymunedau ledled Cymru. Darperir y gwasanaethau hyn yn aml mewn cydweithrediad â chyrrff cyhoeddus, neu ar eu rhan.

Mae Nacro Cymru yn ymdrechu i gynnig y dewis i'r cyhoedd yng Nghymru o ddefnyddio naill ai'r Gymraeg neu'r Saesneg wrth ddelio â'r sefydliad ac mae'n cydnabod:

- y gall aelodau o'r cyhoedd fynegi barn a dweud beth yw eu hanghenion yn well yn eu dewis iaith;
- pwysigrwydd darparu gwasanaethau yn unol â dewis iaith ei ddefnyddwyr gwasanaeth;
- bod galluogi'r cyhoedd i ddefnyddio eu dewis iaith yn elfen o arfer da, nid consesiwn; ac
- y gallai gwrthod yr hawl iddynt ddefnyddio

eu dewis iaith olygu bod aelodau'r cyhoedd dan anfantais.

Amcan NACRO Cymru felly yw:

- ffurfio gwasanaeth ymatebol a chyson ar gyfer siaradwyr Cymraeg sy'n defnyddio ei wasanaethau, a hysbysu'r ffaith ei fod ar gael;
- sicrhau fod pob gwasanaeth yn ymateb i anghenion siaradwyr Cymraeg ac yn gallu darparu gwasanaeth ar eu cyfer; a
- sefydlu ar y dechrau'n deg beth yw dewis iaith defnyddiwr gwasanaeth potensial; nodi'r dewis iaith; ymdrechu i gadw at y dewis hwnnw; rhoi gwybod beth yw'r dewis iaith i sefydliadau eraill sy'n gweithio mewn partneriaeth gyda Nacro Cymru mewn perthynas â'r defnyddiwr gwasanaeth hwnnw.

Bydd tîm rheoli a phob prosiect yn edrych ar ei drefniadau ei hun ar gyfer darparu gwasanaethau i'r cyhoedd er mwyn penderfynu beth yw'r ffordd orau o ddarparu gwasanaethau yn Gymraeg a Saesneg. Bydd trefniadau o'r fath yn cael eu harolygu'n barhaus er mwyn cymryd newidiadau yn y galw ac yn nosbarthiad defnyddwyr gwasanaeth sy'n siarad Cymraeg i ystyriaeth. Ni fydd pob gwasanaeth ar gael yn Gymraeg yn gyflawn ac ar unwaith, a gwneir trefniadau i sefydlu rhwydwaith o staff gyda'r sgiliau iaith addas fydd yn gallu cynnig cymorth y tu hwnt i'w gweithleoedd eu hunain.

Safonau gwasanaeth yn Gymraeg

Mae Nacro Cymru wedi llwyr ymrwymo i ddarparu gwasanaeth o'r un safon uchel yn Gymraeg ac yn y Saesneg. Mae'r mesurau a'r amserlen ar gyfer cwrdd â'r safonau a ddymunir wedi eu nodi yng nghynllun gweithredu'r cynllun iaith.

Bydd Nacro Cymru yn gwneud y cynllun yn gyhoeddus ac yn monitro ac arolygu'r safonau a gyflawnir ganddo. Caiff y drefn arolygu ei gydlynw gan reolwr priodol Nacro Cymru a bydd yn golygu ymgynghori â holl ystod defnyddwyr gwasanaeth Nacro Cymru, a bydd yn ceisio sicrhau cysondeb agwedd tra'n parhau'n sensitif ac ymatebol i amgylchiadau a gofynion lleol ledled Cymru.

■ Delio a'r cyhoedd a defnyddwyr gwasanaeth sy'n siarad Cymraeg

Mae Nacro Cymru yn anelu at ddarparu gwasanaeth o ansawdd uchel yn Gymraeg a Saesneg wrth ddelio gyda'r cyhoedd, boed yn unigolion, grwpiau, cymunedau neu'r cyhoedd yn gyffredinol. Mae Nacro Cymru yn croesawu cyfathrebu a chysylltu gan y cyhoedd yn Gymraeg a Saesneg, boed yn ohebiaeth, dros y ffôn, mewn cyfarfodydd neu mewn ffyrdd eraill.

Cyfathrebu ysgrifenedig

Mae NACRO Cymru yn croesawu cyfathrebu ysgrifenedig yn Gymraeg ac yn Saesneg.

- Bydd unrhyw ohebiaeth a ddaw gan y cyhoedd a defnyddwyr gwasanaeth yn yr iaith Gymraeg yn cael ei ateb yn Gymraeg.
- Bydd y cyfnod ymateb i ohebiaeth yn y Gymraeg yr un fath â'r cyfnod ymateb i ohebiaeth yn y Saesneg.
- Unwaith y daw'n hysbys fod yn well gan aelod o'r cyhoedd ddefnyddio'r Gymraeg, danfonir gohebiaeth Gymraeg at y person hwnnw/honno yn y dyfodol.
- Yn unol â gofynion y Ddeddf Gwarchod Data, bydd Nacro Cymru yn cofnodi enwau defnyddwyr gwasanaeth, sefydliadau ac aelodau eraill o'r cyhoedd sy'n dymuno delio â Nacro Cymru trwy gyfrwng y Gymraeg.
- Lle nad yw dewis unigol yn hysbys, er enghraifft wrth anfon llythyrau safonol, bydd cyfathrebu ysgrifenedig i'r cyhoedd yng Nghymru yn ddwyieithog.
- Pan nad oes gan Nacro Cymru staff ar gael i ateb gohebiaeth mewn Cymraeg o safon digon uchel, bydd yn defnyddio asiantaeth gyfieithu broffesiynol.
- Bydd datganiad safonol dwyieithog ar bapur ysgrifennu Nacro Cymru yn nodi bod gohebiaeth yn cael ei groesawu yn Gymraeg a Saesneg.

Cyfathrebu dros y Ffôn

Mae Nacro Cymru yn croesawu galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.

- Caiff pob galwad allanol ei ateb gyda

chyfarchiad dwyieithog a nodir enw'r sefydliad. Bydd pob aelod o staff sydd yn ateb y ffôn fel rhan o'i brif ddyletswyddau yn cael ei hyfforddi i ddefnyddio cyfarchiad dwyieithog. Bydd pob aelod staff arall yn cael cynnig hyfforddiant i'w galluogi i ddefnyddio cyfarchiad dwyieithog.

- Bydd aelodau'r cyhoedd sy'n dymuno cynnal sgwrs ar y ffôn yn y Gymraeg yn gallu gwneud hynny. Bydd y cysylltydd yn cyfeirio'r alwad at aelod staff sy'n siarad Cymraeg yn y tîm priodol neu at aelod staff sy'n siarad Cymraeg ac sydd ar gael fydd yn hwyluso cysylltiad gyda'r person iawn. Bydd y galwr yn cael dewis naill ai y bydd rhywun yn ei ffonio yn ôl (o fewn un diwrnod gwaith) neu i barhau gyda'r sgwrs yn Saesneg.
- Bydd Nacro Cymru yn sicrhau bod aelodau staff a gwirfoddolwyr yn ymwybodol o'r camau i'w cymryd os nad ydynt yn deall iaith y galwr. Caiff rhestr o aelodau staff sy'n gallu delio â galwadau Cymraeg ei lunio a bydd ar gael i bob aelod staff, ond yn enwedig i staff sy'n gwneud dyletswyddau croesawu.
- Mewn sefyllfaoedd lle mae ymholiad yn un cymhleth iawn neu'n arbenigol ac nad oes staff sy'n siarad Cymraeg all ddelio yn ddigonol â'r mater, rhoddir y dewis i barhau gyda'r sgwrs yn Saesneg neu anfon yr ymholiad yn ysgrifenedig yn y Gymraeg.
- Bydd yr un neges ar beiriannau ateb yn Gymraeg ac yn Saesneg.
- Os bydd Nacro Cymru yn sefydlu unrhyw linellau ffôn cymorth ar gyfer y cyhoedd yng Nghymru, cânt eu gweithredu yn ddwyieithog.

Cyfarfodydd cyhoeddus a chynadleddau

Nid yw Nacro Cymru yn trefnu cyfarfodydd mawr ar gyfer y cyhoedd yn aml. Mae'n cynnal cynadleddau a gweithgareddau hyfforddi yng Nghymru, fodd bynnag. Bydd Nacro Cymru yn sefydlu arferion safonol er mwyn cynorthwyo gyda threfniadau cyfarfodydd o'r fath.

Bydd hysbysiadau pob cyfarfod cyhoeddus a

chynhadledd yn ddwyieithog, a byddant yn cynnwys y datganiad y perchir hawl y rhai sy'n mynychu'r cyfarfod i siarad yn Gymraeg neu yn Saesneg.

Caiff anghenion cyfieithu eu hasesu cyn cynnal unrhyw gyfarfod cyhoeddus neu gynhadledd. Darperir y cyfleusterau cyfieithu priodol ar sail yr asesiad. Os darperir cyfleusterau cyfieithu rhoddir gwybod ymlaen llaw fod croeso i unrhyw un siarad Gymraeg. Os ystyrir, ar sail yr asesiad, nad oes angen cyfleusterau cyfieithu neu na fyddant yn ymarferol bosib, caiff hyn ei wneud yn glir ymlaen llaw. Gwneir yr asesiad ar sail pwrpas neu destun y cyfarfod, ei leoliad, y rhai sy'n debygol o'i fynychu ac unrhyw wybodaeth ymlaen llaw ynghylch y dewis iaith. Gwneir asesiad yn yr un modd ar yr angen i gael aelodau staff sy'n siarad Gymraeg i dderbyn a chroesawu'r cyhoedd mewn cyfarfodydd. Gwisgir bathodynau sy'n dynodi siaradwyr Gymraeg er mwyn dangos pa staff neu wirfoddolwyr sy'n siarad Gymraeg.

Pan fydd Nacro Cymru yn trefnu cyfarfodydd gyda sefydliadau sy'n arfer gweithio yn y Gymraeg, cynhelir y cyfarfod yn Gymraeg neu fe ddarperir cyfieithu ar y pryd.

Cyfarfodydd Eraill

Gwneir y cynnig i gynnal cyfweiliadau a chyfarfodydd preifat eraill gyda defnyddwyr ac aelodau unigol o'r cyhoedd naill ai yn y Gymraeg neu'r Saesneg. Lle nad yw'n bosibl darparu gwasanaeth Gymraeg neu gyfieithydd ar unwaith, gwneir trefniadau i gwrdd â'r cais cyn gynted ag y bo modd. Caiff hyn ei fonitro i sicrhau fod y gwasanaeth yn foddhaol.

- Yn swyddfeydd prosiect Nacro Cymru, lle mae aelodau o'r cyhoedd yn ymweld yn rheolaidd, gwneir pob ymdrech i sicrhau fod aelodau staff sy'n siarad Gymraeg ar gael i gynnal y busnes trwy gyfrwng y Gymraeg.
- Gwneir pob ymdrech i sefydlu timoedd gwaith sy'n cynnwys rhywun sy'n siarad Gymraeg neu sy'n gallu galw am wasanaeth cyfieithydd yn hawdd.
- Wrth gynllunio digwyddiadau hyfforddi,

rhoddir ystyriaeth i anghenion a dewisiadau staff sy'n eu mynychu. Gellir darparu digwyddiadau hyfforddi'n ddwyieithog os yw hyn yn rhesymol ac yn ymarferol.

Unrhyw gyswllt arall gyda'r cyhoedd

Ar hyn o bryd nid oes gan Nacro Cymru unrhyw systemau sain cyhoeddus, na systemau cyfathrebu cyfrifiadurol uniongyrchol na chysylltiadau drwy gyfrwng teledu gyda'r cyhoedd. Pe byddai systemau o'r fath yn cael eu datblygu yn y dyfodol, bydd Nacro Cymru yn sicrhau y gallai'r cyhoedd ddefnyddio Gymraeg a Saesneg, a byddai'n sicrhau y byddai pob neges neu arwydd electroneg ar gyfer y cyhoedd yn ddwyieithog.

Cyffredinol

Mae Nacro Cymru yn cydnabod y bydd peth anhawster ar y dechrau wrth gwrdd â'r mesurau hyn, gan mai nifer fechan o staff a gwirfoddolwyr sydd yn ei swyddfeydd a'i brosiectau, gyda'r mwyafrif ar hyn o bryd heb unrhyw un sy'n siarad Gymraeg.

Bydd rheolwr pob swyddfa prosiect yn gyfrifol am gynnig y ffordd orau i drefnu ei weithgareddau a'i weithwyr i'w alluogi i ddarparu ar gyfer y cyhoedd sy'n siarad Gymraeg yn unol â'r ymrwymadau a geir yn y cynllun hwn. Bydd angen i'r trefniadau arfaethedig gael eu cymeradwyo gan y rheolwr llinell priodol.

Ni ellir darparu pob gwasanaeth i'r cyhoedd yn llawn trwy gyfrwng y Gymraeg ar hyn o bryd, ond bydd staff yn sensitif i ddewis iaith a byddant yn gwneud eu gorau i ddarparu gwasanaeth mor llawn â phosibl ar gyfer y cyhoedd, boed hynny trwy gysylltiad personol neu trwy gyfrwng gohebiaeth.

Bydd ymwybyddiaeth iaith yn cael ei ymgorffori'n briodol yn hyfforddiant corfforaethol Nacro ar gydraddoldeb ac amrywiaeth a bydd yn ffurfio rhan o'r rhaglen sefydlu ar gyfer pob aelod staff newydd sydd wedi'i leoli yng Nghymru.

■ Wyneb Cyhoeddus Nacro Cymru

Delwedd Gorfforaethol

Bydd Nacro Cymru yn meithrin delwedd gorfforaethol ddwyieithog ar gyfer ei gweithgareddau yng Nghymru. Bydd enw'r sefydliad yn ymddangos fel Nacro Cymru.

Caiff y ddelwedd gorfforaethol ddwyieithog ei chadarnhau yn gyson ar bob pen llythyr, ffurflen, poster, arwyddion mewnol ac allanol ac unrhyw wybodaeth arall sy'n berthnasol i ddelwedd gorfforaethol y sefydliad, y gwasanaethau yng Nghymru a'r gweithgareddau cyfathrebu yng Nghymru.

Arwyddion

Yng Nghymru, bydd pob arwydd allanol a phob arwydd mewnol mewn mannau cyhoeddus yn adeiladau Nacro Cymru yn ddwyieithog. Gosodir y fersiwn Cymraeg uchaf neu o flaen y fersiwn Saesneg.

Lle y defnyddir arwyddion Cymraeg a Saesneg ar wahân, byddant yn gyfartal o ran ffurf, maint, ansawdd ac amlygrwydd. Bydd arwyddion newydd sbon neu rai newydd fydd yn cymryd lle rhai eraill yn swyddfeydd Cymru yn ddwyieithog gyda'r fersiynau Cymraeg a Saesneg ochr yn ochr.

Deunydd wedi ei gyhoeddi a'i argraffu yng Nghymru

Cynhyrchir llythyrau a ffurflenni ar gyfer eu dosbarthu yng Nghymru yn Gymraeg ac yn Saesneg. Rhoddir yr ystyriaeth gyntaf bob amser i ddarparu taflenni a deunydd cyhoeddedig arall fel un ddogfen ar ffurf ddwyieithog. Cynhyrchir fersiynau ar wahân i'r Gymraeg ac i'r Saesneg dim ond lle nad yw'n ymarferol neu'n gost-effeithiol i'w cynhyrchu yn ddwyieithog. Bydd y fersiynau o'r un ansawdd a chânt eu dosbarthu ar yr un pryd os nad oes rhesymau cryf dros beidio â gwneud hynny, a rhoddir yr un sylw iddynt wrth eu hyrwyddo neu eu harddangos. Os codir tâl am unrhyw gyhoeddiad, bydd y pris yr un fath am y fersiynau dwyieithog, y fersiynau Cymraeg a'r rhai Saesneg.

Bydd y cyhoeddiadau a'r adroddiadau a

ddosberthir gan Nacro Cymru yng Nghymru ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg. Lle mae rheolwr ar lefel priodol wedi cytuno (hy, adran, ardal neu ranbarth) gellir cynhyrchu dogfennau sydd yn dechnegol fanwl a rhai arbenigol - ac yn annhebygol o fod o ddiddordeb i'r cyhoedd yn gyffredinol - yn Saesneg yn unig.

Bydd adroddiadau blynyddol y prosiectau yn cael eu cynhyrchu'n ddwyieithog a byddant yn cynnwys cyfeiriad at ddarpariaethau'r Cynllun Iaith Gymraeg.

Bydd adroddiad blynyddol Nacro yn cynnwys adroddiad dwyieithog gan Nacro Cymru.

Gwybodaeth i ddefnyddwyr gwasanaeth ac i'r cyhoedd

Bydd cynhyrchu deunydd dwyieithog i ddefnyddwyr gwasanaeth a'r cyhoedd yn cael ei raglennu a'i flaenoriaethu yn ôl natur y deunydd, y gynulleidfa darged ac anghenion ieithyddol ei gynulleidfa darged.

Lle mae deunydd ar gael naill ai yn Gymraeg neu yn Saesneg, bydd hyn yn cael ei ddangos yn glir er mwyn i ddarllenwyr allu penderfynu pa un y byddent yn hoffi ei weld.

Efallai y bydd angen i ddefnyddwyr gwasanaeth ac aelodau o'r cyhoedd sy'n dymuno derbyn copïau o ddeunyddiau yn Gymraeg neu yn Saesneg neu yn y ddwy iaith wneud cais am hynny mewn llythyr, dros y ffôn neu wyneb yn wyneb. Nodir manylion defnyddwyr gwasanaeth ac aelodau eraill o'r cyhoedd sy'n gofyn am ffurflenni Cymraeg.

Cyhoeddir canllawiau ysgrifenedig ar gyfer staff ac ar gyfer y dylunwyr sy'n gyfrifol am ddarparu'r ffurflenni a'r deunydd hwn.

Cyhoeddiadau i'r Wasg

Mae cyswllt â'r cyfryngau – ar wahân i gysylltiad y prosiectau â'r wasg – yn cael ei gydlynu gan swyddfa gyfryngau genedlaethol Nacro. Bydd Nacro'n anelu at gynhyrchu datganiadau dwyieithog i'r wasg pan fo hynny'n briodol.

Bydd Nacro Cymru yn anelu at nodi llefarwyr y cyfryngau sy'n siarad Cymraeg.

Hysbysebu a gweithgareddau cyhoeddusrwydd

Bydd posteri hysbysrwydd a deunydd arddangos ar gyfer y cyhoedd yng Nghymru yn cael eu darparu yn ddwyieithog lle bo hynny'n ymarferol. Pan nad yw darparu yn ddwyieithog yn ymarferol bydd hysbysrwydd a deunydd arddangos yn cael eu darparu yn Gymraeg ac yn Saesneg ar wahân.

Bydd hysbysebion sy'n ymwneud â gwasanaethau yng Nghymru yn Gymraeg ac yn Saesneg, neu yn y Gymraeg yn unig ar gyfer y cyfryngau cyfrwng Cymraeg.

Bydd cylchlythyrau a llythyrau newyddion ar gyfer defnyddwyr gwasanaeth a'r cyhoedd yn cael eu paratoi yn Gymraeg a Saesneg.

Hysbysebion recriwtio ar gyfer staff a gwirfoddolwyr

Os yw'r gallu i siarad Cymraeg yn angenrheidiol ar gyfer swydd gyflogedig, bydd yr hysbyseb yn y Gymraeg yn unig, gydag esboniad byr yn Saesneg.

Os nad yw'r gallu i siarad Cymraeg yn hanfodol, ond ei fod yn ddymunol, bydd hysbysebion recriwtio ar gyfer staff a gwirfoddolwyr o fewn Cymru yn y Gymraeg yn unig yn y papurau newydd cyfrwng Cymraeg; yn Saesneg yn unig ym mhapurau'r DU a chyhoeddiadau proffesiynol; ac yn y ddwy iaith ym mhapurau cenedlaethol a lleol Cymru ac ym mwletin swyddi gwag mewnol Nacro ac ar y wefan. Bydd y ddwy iaith yn cael eu harddangos gyda'r un amlygrwydd, eglurder, maint, fformat ac ansawdd mewn hysbysebion dwyieithog.

Gyda swyddi lle mae siarad Cymraeg yn hanfodol, bydd disgrifiadau swyddi a manylebau person ar gyfer swyddi cyflogedig yng Nghymru yn cael eu darparu yn Gymraeg a Saesneg a gwahoddir ymgeiswyr i lenwi'r ffurflen gais yn Gymraeg os oes well ganddynt.

Gyda swyddi lle mae siarad Cymraeg yn hanfodol, bydd rhan helaeth o'r cyfweiliad yn cael ei gynnal yn Gymraeg er mwyn asesu sgiliau iaith Gymraeg yr ymgeisydd.

Gweithredu a Monitro'r Cynllun

Mae cynllun gweithredu ac amserlen yn nodi sut y bydd Nacro'n gweithredu ac yn monitro effeithiolrwydd y Cynllun Iaith Gymraeg ar gael i randdeiliaid ar gais gan Reolwr Ardal Tai Nacro ar 01492 860437 neu gan y Rheolwr Gweithrediadau dros Gymru ar 01248 354602.

■ Staff a Gwirfoddolwyr

Bydd Nacro Cymru yn gwneud pob ymdrech i sicrhau fod staff a gwirfoddolwyr sy'n gallu darparu gwasanaeth ar gyfer siaradwyr Cymraeg ym mhob swyddfa a phob prosiect sydd â chyswllt gyda'r cyhoedd.

Bydd swyddi pob swyddfa a phrosiect yn cael eu hastudio er mwyn nodi lle mae'r angen i siarad Cymraeg naill ai'n hanfodol neu'n ddymunol. Bydd unrhyw ofynion o'r fath yn cael eu cynnwys mewn disgrifiadau swyddi a manylebau person. Gosodir meini prawf ar gyfer asesu'r gofynion, yn eu plith natur y swydd a pha mor aml y bydd cysylltiad ag aelodau o'r cyhoedd sy'n siarad Cymraeg.

Yn flynyddol fe ddarperir rhestr o aelodau staff sy'n darparu gwasanaeth i'r cyhoedd yng Nghymru ac sy'n gallu siarad ac ysgrifennu Cymraeg.

Ymdrechir i recriwtio staff sy'n siarad Cymraeg i swyddi penodol pan fo swydd wag yn bodoli

Darperir cefnogaeth a hyfforddiant i staff a gwirfoddolwyr yn y defnydd o'r iaith Gymraeg er mwyn iddynt ennill sgiliau a gwella eu sgiliau presennol. Bydd dyrannu adnoddau Nacro (hy, ariannu uniongyrchol ac amser yn ystod oriau gwaith) yn ddibynnol ar asesiad o anghenion hyfforddi a blaenoriaethau parthed y lles i'r ddarpariaeth gwasanaethau.

Sefydlir dulliau gweithredu ar gyfer monitro'r gwasanaeth, nodi'r diffygion a phenderfynu ar beth ddylid ei wneud.

■ Recriwtio

Er mwyn cwrdd ag amcanion y cynllun, asesir anghenion ieithyddol pob gwasanaeth a sefydlir rhaglen recriwtio sy'n addas i'r anghenion hynny.

Ystyrir gallu ieithyddol fel un o'r ffactorau

perthnasol wrth recriwtio staff neu wirfoddolwyr.

Bydd hysbysebion swyddi yn nodi os yw'r gallu i siarad Cymraeg yn hanfodol neu'n ddymunol.

Cynhyrchir canllawiau ar gyfer recriwtio staff a gwirfoddolwyr lle mae'r gallu i siarad Cymraeg yn hanfodol neu'n ddymunol.

■ Dysgu Cymraeg

Mae NACRO Cymru yn ymroddedig i sicrhau llwyddiant y cynllun, ac o'r herwydd y mae'n cydnabod pwysigrwydd hyfforddiant yn yr iaith Gymraeg ar gyfer ei staff a'i wirfoddolwyr.

Rhoddir anogaeth a chefnogaeth i staff sydd am ddysgu Cymraeg neu am wella eu gallu i gyfathrebu yn Gymraeg.

Rhoddir blaenoriaeth ar gyfer adnoddau i ddarparu hyfforddiant i wasanaethau ac allfeydd lle defnyddir y Gymraeg yn rheolaidd er mwyn cyfathrebu gydag aelodau o'r cyhoedd.

■ Hyfforddiant arall

Bydd gwybodaeth am y Cynllun Iaith Gymraeg ac am ofynion *Deddf yr Iaith Gymraeg* yn cael ei chynnwys mewn hyfforddiant ar gydraddoldeb ac amrywiaeth ac mewn hyfforddiant sefydlu i bob aelod o staff Nacro Cymru ac i wirfoddolwyr.

Trefnir cyrsiau yn ôl y galw er mwyn gwella sgiliau iaith Gymraeg aelodau staff a gwirfoddolwyr.

Bydd y cynllun iaith yn rhan hanfodol o sefydlu aelodau newydd o staff a gwirfoddolwyr, a bydd yn chwarae rhan yn natblygiad pob gweithiwr lle bo hynny'n briodol.

■ Trefniadau gweinyddol

Derbyniodd y Cynllun Iaith Gymraeg gymeradwyaeth Bwrdd Nacro ym mis Ionawr 2007 a chymeradwyaeth Bwrdd yr Iaith Gymraeg ar 25 Ebrill 2007.

Bydd Nacro Cymru yn sicrhau fod ei weinyddiad mewnol yn hybu amcanion y cynllun lle bynnag

y bo hynny'n ymarferol. Ymdrinnir â gwasanaethau Cymraeg a Saesneg fel rhannau hanfodol o weithgareddau Nacro Cymru. Addasir dulliau'r sefydliad o ddynodi gwariant ac adnoddau i adlewyrchu hyn. Y nod yw normaleiddio gwariant a'r defnydd o adnoddau ar wasanaethau iaith Gymraeg nes ei bod yn hollol naturiol i ddarparu gwasanaethau yn y ddwy iaith swyddogol yng Nghymru ac i drefnu adnoddau er mwyn cwrdd â'r amcan hwnnw.

Rhodddwyd y cyfrifoldeb o sicrhau gweithrediad corfforedig y Cynllun Iaith Gymraeg ar ysgwyddau Pennaeth Strategaeth Cydraddoldeb Nacro.

Darperir cyfarwyddiadau a chanllawiau ar weithredu'r cynllun ar gyfer pob swyddfa yng Nghymru, ac ar gyfer y swyddfeydd o fewn Nacro sy'n ymwneud â chyfathrebu gyda'r cyhoedd yng Nghymru. Darperir gwybodaeth ar bwrpas y cynllun, sut i ddefnyddio gwasanaeth cyfieithu proffesiynol, arfer da a dulliau y gall staff eu defnyddio i gynorthwyo defnyddwyr gwasanaeth i dderbyn gwasanaeth da yn eu dewis iaith.

Cynhelir archwiliadau rheolaidd o broffil iaith defnyddwyr gwasanaeth, staff a gwirfoddolwyr er mwyn sicrhau fod anghenion iaith Gymraeg y sefydliad yn parhau i gael eu bodloni gan ei gynllun iaith a'i raglen hyfforddi. Bydd yr archwiliad yn nodi'r swyddi hynny lle mae sgiliau siarad Cymraeg yn hanfodol ac union lefel y sgiliau sydd eu hangen.

■ Monitro

Bydd gweithredu'r mesurau a amlinellir yn y cynllun yn cael ei fonitro gan Bennaeth Strategaeth Cydraddoldeb Nacro yn flynyddol. Darperir adroddiad monitro a gwerthuso i'w gyflwyno i Brif Weithredwr Nacro, a danfonir copi at Fwrdd yr Iaith Gymraeg.

Bydd y pwyntiau canlynol yn cael eu monitro

- Blaen gynllunio – sicrhau fod y polisiau a'r dulliau gweithredu newydd, cyhoeddiadau, gwasanaethau a dulliau gweithredu gweinyddu mewnol yn cyd-fynd â darparu gwasanaethau Cymraeg/Saesnet ar sail cyfartaledd;

- Delio ag aelodau o'r cyhoedd sy'n siarad Cymraeg – monitro amserau ymateb ar gyfer delio â gohebiaeth yn Gymraeg; monitro ansawdd gwaith cyfieithu; monitro trefniadau ar gyfer cyfarfodydd;
- Wyneb cyhoeddus Nacro Cymru – monitro delwedd gorfforaethol y sefydliad; monitro bod cyhoeddiadau, ffurflenni, arwyddion, hysbysiadau a deunydd arall wedi ei gyhoeddi ar gael yn Gymraeg a Saesneg;
- Staff a gwirfoddolwyr – monitro cynnydd gweithredu mesurau recriwtio a hyfforddiant a gynhwysir yn y cynllun hwn;
- Amserlen – monitro'r cyraeddiadau wrth weithredu'r mesurau a nodir yn yr amserlen; a
- Lefel boddhad – monitro amllder a natur cwynion sy'n ymwneud â Chynllun Iaith Gymraeg Nacro Cymru.

Bydd pob cwyn ynghylch gweithredu'r cynllun yn cael ei gyflwyno'n lleol a'i fonitro gan Bennaeth Strategaeth Cydraddoldeb Nacro.

Mae Nacro Cymru yn croesawu awgrymiadau gan y cyhoedd a staff am welliannau i'w gynllun iaith Gymraeg a'i wasanaethau. Dylid cyfeirio pob awgrym at:

- Rheolwr Ardal (NCE)
1 Sgwâr y Drindod
Llandudno
Conwy LL30 2PY
Ffôn 01492 860 437
- Rheolwr Gweithrediadau (Cymru)
63 Stryd Fawr
Bangor
Gwynedd LL57 1NR
Ffôn 01248 354 602

■ Cyhoeddi gwybodaeth ar berfformiad

Bydd Nacro Cymru yn trefnu i gyhoeddi gwybodaeth fydd yn dangos perfformiad yn erbyn y safonau a nodir yn y Cynllun Iaith Gymraeg.

Bydd yr arolwg yn cynnwys gwybodaeth ar sut y mae perfformiad wedi cymharu â thargedau a osodwyd, megis:

Gweithredu a Monitro'r Cynllun

- Canran yr ymatebion i ohebiaeth Gymraeg a ddarparwyd ar amser;
- Canran y cyhoeddiadau oedd yn ddwyieithog i'w gymharu â'r targed;
- Canran yr hysbysiadau i'r cyfryngau oedd yn ddwyieithog;
- Nifer y siaradwyr Cymraeg yn y gweithle o'i gymharu â'r amserlen a'r targedau.

Bydd Nacro Cymru hefyd yn rhoi esboniad dros fetu â chwrdd ag unrhyw safonau a gyhoeddwyd, pe digwyddai hynny, a bydd yn nodi pa gamau a gymerwyd neu a fwriedir eu cymryd er mwyn unioni hyn.

Bydd gwybodaeth ar berfformiad yn cael ei gynnwys yn adroddiad blynyddol Nacro.

■ Rhoi Cyhoeddusrwydd i'r Cynllun

Rhoddir gwybodaeth i'r cyhoedd am Gynllun Iaith Gymraeg Nacro trwy gyfrwng taflen a fydd ar gael ym mhob swyddfa yng Nghymru.

Caiff y cynllun ei gyhoeddi i staff a gwirfoddolwyr trwy gyfrwng y gweithdrefnau a'r mecanweithiau a ddisgrifir yn y ddogfen hon.

Dylid cyfeirio unrhyw ymholiad ar Gynllun Iaith Gymraeg Nacro Cymru at:

- Pennaeth Strategaeth Cydraddoldeb Nacro
[Nacro's Head of Equality Strategy]
c/o 169 Clapham Road
London SW9 0PU
Ffôn 020 7840 6712
Ffacs 020 7735 4666